| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Hydref 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd / Cyfarwyddwr Corfforaethol: y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd; Addysg a Gwasanaethau Plant; a Chefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau. |
| **Awdur yr adroddiad** | Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Phartneriaid Busnes TGCh |
| **Teitl** | System Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol newydd - Dyfarnu Contract |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cymeradwyodd y Cabinet gais i Sir Ddinbych gymryd rhan mewn proses gaffael ar gyfer system rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol newydd yn seiliedig ar yr Achos Busnes a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2024. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio awdurdod i ddyfarnu contract i'r cynigydd llwyddiannus.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ceisio awdurdod i ddyfarnu'r contract a pharhau i gymryd rhan yn y rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet:

3.1. yn cymeradwyo'r adroddiad Dyfarnu Contract sydd ynghlwm fel Atodiad Dau.

3.2. yn parhau i gefnogi cyfranogiad Sir Ddinbych yn y rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn dilyn yr adroddiad i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf 2024, fel rhan o glwstwr o'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, hysbysebodd Sir Ddinbych y cyfle i gontractio ar gyfer system rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol gydag ail glwstwr o awdurdodau. Rheolwyd yr hysbyseb gan Rhondda Cynon Taf.

4.2. Caeodd y tendrau ar 26 Awst 2024 a chynhaliwyd proses werthuso leol yn fewnol. Cyflwynwyd y sgoriau o'r broses honno mewn sesiwn gymedroli ranbarthol ar 18 Medi 2024.

4.3. Cynhaliwyd sesiwn gymedroli bellach gyda'r clwstwr arall ar 2 Hydref ac roedd sgoriau'r ddau glwstwr yn debyg, a llwyddwyd i gytuno ar y rhai oedd yn amrywio. Mae hyn yn golygu y bydd y ddau glwstwr yn ceisio dyfarnu contractau i'r un cynigydd llwyddiannus.

4.4. Hyd yma, mae pob awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y rhaglen 'heb unrhyw rwymedigaeth', ond rydym bellach wedi cyrraedd pwynt ble mae arnom angen penderfynu p'un ai i ddyfarnu contract i'r cyflenwr a ffefrir. Mae'r amserlen bresennol yn dangos y bydd Rhondda Cynon Taf yn rhoi gwybod i gynigwyr am y canlyniad ar 24 Hydref a bydd canlyniad y trafodaethau a'r broses ddethol yn parhau'n gyfrinachol ac yn sensitif yn fasnachol tan hynny.

4.5. Yn ôl yr amserlen bresennol, dyfernir y contractau ar 5 Tachwedd yn dilyn cyfnod segur o 10 diwrnod.

4.6. Bydd gan gontractau a ddyfernir o ganlyniad i'r broses dendro gyfnod cychwynnol o 7 mlynedd, gyda'r opsiwn i'w hymestyn fesul 2 flynedd hyd at uchafswm o 21 mlynedd. Bydd pob awdurdod yn dyfarnu eu contractau eu hunain a byddant yn gyfrifol am eu trefniadau rheoli contractau eu hunain.

4.7. Mae crynodeb o gostau'r tendr yn Atodiad un, sy'n fersiwn diwygiedig o'r tabl a gyflwynwyd i'r Cabinet fel rhan o'r Achos Busnes.

4.8. Mae copi drafft o'r adroddiad Dyfarnu Contract, fel sy'n ofynnol gan Reolau'r Weithdrefn Gontractau ar gael yn Atodiad dau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y System Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol newydd yn cyfrannu at y themâu canlynol yn y Cynllun Corfforaethol:

- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar
- Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r costau wedi'u cynnwys yn Atodiadau un a dau.

6.2. Mae llawer o hyder y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gostau'r system, ac rydym wrthi'n gweithio gyda CLILC ar achos busnes cenedlaethol i danategu'r broses geisiadau. Fodd bynnag, gallwn ariannu'r costau sydd ynghlwm â'r caffael hwn gyda chyllid o'r Gronfa Trawsnewid Gofal Cymdeithasol os na fyddwn yn cael arian ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

6.3. Byddwn yn adrodd yn ôl i'r Cabinet yn ddiweddarach gydag achos busnes wedi'i ddiweddaru ac adroddiad ar gynnydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y System Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol newydd oherwydd ei bod yn disodli un system gyda'r llall. Fodd bynnag, wedi rhoi'r system newydd ar waith, rhagwelir y bydd yr Awdurdodau Lleol yn cydweithio i archwilio cyfleoedd i ddatblygu'r system yn y dyfodol i alluogi rhyngweithio uniongyrchol â dinasyddion. Os bydd hyn yn

digwydd, byddai Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'r rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal i ddatblygu Asesiad o'r Effaith ar Les i Gymru gyfan.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Bydd yr Achos Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Craffu Cyfalaf.

8.2. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn aelod o Grŵp Cynghori SRO Llywodraeth Leol Cysylltu Gofal CLILC a'i nod yw darparu arbenigedd, arweiniad a gwneud penderfyniadau i sicrhau bod llais llywodraeth leol yn cael ei gynrychioli'n briodol a bod ei gofynion yn cael eu bodloni wrth roi'r Rhaglen Cysylltu Gofal genedlaethol ar waith.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn adran 6 yr adroddiad, mae cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu'r costau untro sy'n gysylltiedig â gweithredu'r System Rheoli Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol newydd a nodir yn Atodiad 1. Wrth i'r amserlenni ddod yn gliriach, bydd angen cynnwys y cyllidebau refeniw cylchol fel y nodir yn Atodiad 1, yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cofrestr risg fanwl yn yr Achos Busnes, fydd yn cael ei diweddaru maes o law.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. a151 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.3. Rheol 2.7.2 yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau